OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 215 (Cy.26)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *2 Chwefror 2008* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *5 Chwefror 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau sydd yn adrannau 132, 145 a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002 (**1**) ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 132(4) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Medi 2008.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(**2**).

**Diwygio'r Prif Reoliadau**

**3.** Diwygir y Prif Reoliadau fel a ganlyn:

**4.** Ym mharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 2 hepgorer y gair "ac" ar ddiwedd (b).

**5.** Ym mharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 2 mewnosoder ar ôl (b) y paragraff canlynol—

"(c) dim ond o ran personau sy'n dechrau ar gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar neu ar ôl 1 Medi 2008 sydd wedi dilyn unrhyw gyfnod o brofiad addysgu ymarferol at ddibenion y cwrs hwnnw o hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn ysgol, ysgol annibynnol neu sefydliad arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) yng Nghymru; ac".

**6.** Ym mharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 2 yn lle "(c)" rhodder "(ch)".

(**1**) 2002 p.32; rhoddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Neddf Addysg 2002 a'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2004/1729 (Cy.173).

**7.** Ym mharagraff 11(3)(a) o Ran 1 o Atodlen 2 ar ôl "y drwydded;" mewnosoder "a".

**8.** Hepgorer paragraff 11(3)(b) o Ran 1 o Atodlen 2.

**9.** Yn is-baragraff 11(3) o Ran 1 o Atodlen 2 yn lle "(c)" rhodder "(b)".

**10.** Ym mharagraff (4) o reoliad 6 ac yn is-baragraff 11(1), is-baragraff 11(2) a pharagraff 11(3)(a) o Ran 1 o Atodlen 2 yn lle "Cyngor Addysg Taleithiau Guernsey" rhodder "Adran Addysg Taleithiau Guernsey".

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Chwefror 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, (sy'n gymwys o ran Cymru), yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004. Gwnaed newidiadau i nifer o'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ennill statws athrawon cymwysedig yng Nghymru. Diwygir y cyfeiriadau at Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey, a beidiodd â bodoli ar 6 Mai 2004 ac a ddisodlwyd gan Adran Addysg Taleithiau Guernsey.